

# Gweddiwn



## GWEDDI AR GYFER DIWRNOD RHYNGWLADOL HEDDWCH 2021

GAN ROBIN SAMUEL

Arglwydd trugarog,  
wrth i ni ymlwybro am ffyrdd o adael ar ôl,  
yr argyfwng iechyd byd-eang hwn  
na welwyd mo'i debyg,  
helpa ni i ymrwymo i weithio dros undod byd-eang  
a sicrhau bod pawb yn derbyn yr adnoddau angenrheidiol  
i drechu COVID-19.

Ysbrydola ni i weithio'n greadigol gyda'n gilydd  
fel bod pawb yn profi bywyd gwell  
ac yn tyfu'n gryfach ac yn fwy gwydn.  
Bydded i ni gofleidio gweledigaeth  
yr Arglwydd Iesu  
o'th deyrnas;  
byd wedi ei drawsnewid  
i fod yn fyd  
mwy cyfartal a thecach,  
mwy cyfiawn a chynhwysol,  
mwy cynaliadwy ac iach.

Gweddiwn dros y rhai difreintiedig a'r rhai ar y cyrion  
a effeithir arnynt waethaf;  
y bregus a'r rhai nad oes ganddynt fynediad at ofal iechyd;  
y gwledydd hynny lle nad oes neb eto wedi derbyn brechlyn  
am fod eu systemau iechyd yn wan;

# GWEDDI AR GYFER DIWRNOD RHYNGWLADOL HEDDWCH 2021

y rhai a ddaliwyd ynghanol ymladd a gwrthdaro  
ac sy'n methu derbyn triniaethau na brechlynnau all achub bywyd.  
Bydded i'r alwad am gadoediad byd-eang gan y Cenhedloedd Unedig  
gael ei anrhydeddu.  
Cywilyddiwn fod gwarthnod,  
anffafiaeth a chasineb  
ar gynnydd  
ac yn peryglu hyd yn oed mwy o fywydau.

Cofiwn bod y firws yn ymosod ar bawb yn ddiwahân,  
nid yw'n parchu ein ffiniau cenedlaethol, cymdeithasol na chrefyddol ni.  
Atgoffa ni nad ydym yn elynion i'n gilydd  
ac os ydym am weld gwir adferiad  
bod yn rhaid i ni wneud heddwch â'n gilydd.

Dathlwn heddwch  
drwy godi llais yn erbyn  
pob arwydd o gasineb,  
boed ar-lein neu wyneb yn wyneb,  
a thrwy rannu caredigrwydd,  
tosturi a gobaith  
pob cyfle a gawn.

Argyhoedda ni hefyd bod rhaid gwneud heddwch  
a byd natur a'r greadigaeth.  
Er ein cyfyngiadau teithio a'n cyfnodau clo  
nid yw hynnt newid hinsawdd wedi ei atal.  
Helpa ni i fwrw ati i greu economi byd-eang  
gwyrddach a mwy cynaliadwy,  
gan barchu'r greadigaeth,  
bod yn ofalus o'n hadnoddau naturiol,  
ymdrechu i leihau allyriadau,

## GWEDDI AR GYFER DIWRNOD RHYNGWLADOL HEDDWCH 2021

sicrhau cyfiawnder i'r rhai sydd eisoes yn dioddef  
ac adeiladu gwytnwch fydd yn galluogi'r  
bregus i wrthsefyll effeithiau enbyd newid hinsawdd.

Dduw'r heddwch,  
gwna ni'n gryf  
i wrando yn hytrach na barnu,  
i ymddiried yn hytrach nag ofni,  
i godi llais yn hytrach na chadw'n dawel  
ac i ddal ati i gerdded ffordd heddwch a chyfiawnder  
hyd yn oed pan fydd y ffordd honno'n  
anodd dod o hyd iddi  
ac yn galed i'w theithio.

Dduw'r heddwch  
sy'n dyheu am weld heddwch  
drwy'r greadigaeth;  
Ti a anfonaist dy fab  
Iesu Grist  
i rannu heddwch â ni,  
gwranda ein gweddïau  
yn ei enw Ef.

**Amen**